

Gorffennaf 2022

YR OMBWDSMON CYFREITHIOL

**Diweddariad i
Gomisiynydd y Gymraeg:
2021/2022**

Rhagymadrodd

Fe wnaeth Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sefydlu dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru i gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun). Paratowyd y Cynllun a gynhyrchwyd gan yr Ombwdsmon Cyfreithiol (LeO) o dan ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mewn ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg bellach) cyn ei gyhoeddi.

Mae'n disgrifio sut, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, y byddwn yn gweithredu'r egwyddor ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Paratowyd y Cynllun yn unol ag Adrannau 12 i 14 o'r Ddeddf ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth y Cynllun i rym ar 11 Mai 2011.

Mae'r papur hwn yn nodi sut y cyflawnodd yr Ombwdsmon Cyfreithiol ei rwymedigaethau o dan delerau ei Gynllun wrth ddarparu ei wasanaethau yng Nghymru rhwng Ebrill 2021 ac Ebrill 2022. Dyma'r unfed flwyddyn ar ddeg o weithredu'r Cynllun.

Yr hyn a wnawn

Sefydlwyd cynllun yr Ombwdsmon Cyfreithiol gan y Swyddfa Cwynion Cyfreithiol (OLC) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007. Mae defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol yn gallu cyrchu cynllun Ombwdsmon annibynnol a diduedd i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â'u cyfreithiwr. Ni yw'r corff sengl ar gyfer pob cwyn gyfreithiol gan ddefnyddwyr.

Mae'r OLC yn atebol i'r Senedd drwy'r Arglwydd Ganghellor ac mae'n gorff Hyd Braich i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Mae gan yr OLC hefyd berthynas uniongyrchol â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) sydd â swyddogaethau amrywiol yn goruchwyllo'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol.

Mae'r berthynas rhwng yr OLC, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r LSB wedi'i nodi mewn protocol gweithredu teiran y cytunwyd arno rhwng y cyrff, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer sut y bydd y berthynas yn gweithredu gyda'n sefydliadau partner. Mae hwn ar gael oddi ar ein gwefan: <http://www.legalombudsman.org.uk>

Cysylltiadau a chwynion a anfonwyd atom i ymchwilio iddynt

Yn 2021/22 fe wnaethom ohebu â dau AS o Gymru.

Cafodd adran 'gwybodaeth gyffredinol' Cymru ar wefan yr Ombwdsmon Cyfreithiol 104 o ymweliadau unigryw â thudalennau. Mae golygon tudalen unigryw yn cyfeirio at nifer

y defnyddwyr unigol yn hytrach na nifer y cliciau'n unig. Yr amser a dreuliwyd ar gyfartaledd ar y dudalen hon oedd 56 eiliad.

Gall pobl hefyd ddefnyddio'r wefan i anfon eu cwynion atom trwy offeryn ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwiriwr cwynion cychwynnol i wneud yn siŵr ei fod yn rhywbeth y gallwn ymchwilio iddo a ffurflen gwyno ar-lein. Mae'r ddau ar gael yn Gymraeg.

Yn 2021/22 derbyniodd y rhain:

Gwiriwr cwynion – 63 o ymweliadau unigryw

Ffurflen gwyno - 4 ymweliad unigryw

Cwynion wedi'u cwblhau – 2

Gall achwynwyr hefyd lawrlwytho fersiwn Gymraeg o'r ffurflen gwyno a'i hanfon atom.

Gohebiaeth gwyno - cyfieithwyd 4 dogfen i'r Gymraeg yn ymwneud â ffurflenni cwynion.

Mae ein hymateb i ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg yn gymesur â lefel y cysylltiadau a gawn yn y Gymraeg. Rydym yn adolygu hyn yn rheolaidd a byddwn yn diweddarau ein gofynion iaith os bydd unrhyw beth sylweddol yn newid.

Cyhoeddiadau

Cyfieithwyd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020/21 (Adroddiadau a chynlluniau | Yr Ombudsmon Cyfreithiol) i'r Gymraeg, a'r bwriad yw gwneud yr un peth ar gyfer adroddiad eleni a sicrhau ei fod ar gael ar ein gwefan.

Byddwn hefyd yn cyfieithu adroddiad hwn y comisiynydd i'r Gymraeg ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Digwyddiadau siarad

Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi cynnal digwyddiadau yng Nghymru i siarad â'r proffesiwn cyfreithiol am ein gwasanaethau. Yn 2020/21 oherwydd y cyfyngiadau parhaus oherwydd Covid a diffyg adnoddau yn y tîm, roedd digwyddiadau ar-lein i raddau helaeth ac yn dibynnu ar yr adnoddau a oedd ar gael. Aethom i bum digwyddiad wyneb yn wyneb ac wyth digwyddiad ar-lein ledled Lloegr. Ar ddiwedd 2020/21 fe wnaethom ymweld ag un cwmni yng Nghymru i ddarparu hyfforddiant un-wrth-un yn dilyn cais gan y Cyfarwyddwr.

Ers mis Ionawr rydym wedi dechrau ailgysylltu â'n cysylltiadau Cymreig i drafod posibilïadau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol â'r gobaiith o gynnal digwyddiadau yn 2022/23.

Monitro a chwynion

Rydym yn parhau i fonitro ein darpariaeth Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun.

Mae'r tîm Materion Allanol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun a bydd yn parhau i fonitro ein cynnydd wrth ei gyflawni.

Lle gallai polisïau a mentrau corfforaethol newydd effeithio ar ein Cynllun, bydd yr LeO yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

Wrth ystyried unrhyw newidiadau newydd ynghylch polisi, rhoddir ystyriaeth i unrhyw effaith a goblygiadau y gallai'r polisi eu cael ar y Cynllun Iaith Gymraeg.

Casgliad

Mae'r Ombwdsmon Cyfreithiol yn parhau i gymryd ei rwymedigaethau statudol tuag at ddarpariaeth Gymraeg o ddifrif. Byddwn yn parhau i asesu sut y gallwn wasanaethu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg orau.

I gael rhagor o wybodaeth am wybodaeth yn y papur hwn, cysylltwch â'r tîm Materion Allanol yn support@legalombudsman.org.uk.